

HOWEL ap GRUFFYDD, neu Syr HYWEL y FWYALL (bu farw c. 1381),

Enw: Howel ap Gruffydd

Ffugenw: Syr Hywel Y Fwyall

Dyddiad marw: c. 1381

Priod: Tanglwst ferch David Fychan ap Howel

Plentyn: Gruffydd ap Hywel

Rhiant: Angharad wraig Gruffydd ap Howel

Rhiant: Gruffydd ab Howel

Rhyw: Gwryw

Maes gweithgaredd: Milwrol; Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol, Gweinyddiaeth Sifil

Awdur: Thomas Jones Pierce

mab Gruffydd ap Howel (yn disgyn o Collwyn), Bronyfoel, yn nhrefgordd Ystumllyn a phlwyf Ynyscynhaiarn, Eifionydd, ac Angharad ferch Tegwared y Bais Wen. Yr oedd ei nain o ochr ei dad yn yres i [Ednyfed Fychan](#) ac yn chwaer i [Howel ap Gruffydd](#) (Hywel y Pedolau). Mab iau ydoedd. Enillodd enw iddo'i hun yn rhyfeloedd Edward III yn Ffrainc. Ni ellir, fodd bynnag, gael tystiolaeth i'r traddodiad iddo 'ennill ei yspardynau' ym mrwydr Poitiers. Gan ei fod flwyddyn cyn hynny yn derbyn tâl fel marchog yn y gwasanaeth brenhinol ymddengys fel pe bai wir y traddodiad arall ei fod yn bennaeth ar gorff o Gymry ym mrwydr Crecy (1346); bu ei gymorth i ennill y frwydr yn fawr, a gwnaethpwyd ef yn farchog-banerog ('knight-banneret') ar faes y gad, am ei wrhydri. Nid oes ddaid nad oedd hefyd ym mrwydr Poitiers er nad oes sail i'r gred iddo gymryd brenin y Ffrancwyr yn garcharor; gwnaeth ei fwyall-ryfel enwog argraff ddofn ar yr amgylchiad hwnnw. Dywedir i Edward y Tywysog Du roddi lle o anrhydedd i'r erfyn yn y babell frenhinol, iddo orchymyn i fwydydd gael eu doddi ger ei bron bob dydd, ac i'r bwydydd hynny yn ddiweddarach gael eu rhannu fel elusen. Serch i'r arferiad gael ei gychwyn efallai, yn y dechrau, mewn dull hanner-cellweirus, fe ddaeth yn seremoni draddodiadol, a dywed [Syr John Wynn](#), Gwydir, na ddarfu am y seremoni hyd adeg Elisabeth.

Yr oedd Howel yn parhau yng ngwasanaeth y brenin yn 1359. Tua'r flwyddyn honno gwnaethpwyd ef yn gwnstabl castell Cricieth, un o lu o swyddi proffidiol a roddwyd iddo gan y Goron; yng nghastell Cricieth y treuliodd ei flynyddoedd olaf. Ceir disgrifiad byw o fywyd yn y castell yn amser Howel gan [lolo Goch](#). Gwraig Howel oedd Tanglwst, merch i'r o'r enw David Fychan ap Howel. Bu iddo un mab, Gruffydd, na adawodd unrhyw etifeddion uniongyrchol, eithr yr oedd llawer o hen deuluoedd Eifionydd yn olrhain eu hach i Einion, brawd hwn i Syr Hywel.

Awdur

Yr Athro Thomas Jones Pierce, (1905 - 1964)

Ffynonellau

Heraldic Visitations of Wales and Part of the Marches between the years 1586 and 1613, under the authority of Clarencieux and Norroy, two kings at arms (Llandovery 1846), ii, 101

H. Lewis, Thomas Roberts, Ifor Williams (goln), *Cywyddau lolo Goch ac Eraill, 1350-1450* (Bangor 1925)

Y Brython (Tremadog), iii, 287-95

Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, 1925-6, 63

Sir John Wynn, *The History of the Gwydir Family* (1927) (arg. 1927), 56

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Howel y Fwyall](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q5921646](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

